Atodiad 2

Cardiff
Caerdydd

Lles yng Nghaerdydd

Adroddiad Adborth Chwefror 2018

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg
This document is available in English

CYNNWYS

Cyflwyniad	**3**
Methodoleg	**4**
Bywyd yn y ddinas a Gwasanaethau Cyhoeddus	**7**
Lles	**10**
Prifddinas sy'n gweithio dros Gymru	**16**
Mae Caerdydd yn tyfu mewn ffordd wydn	**18**
Cymunedau Diogel, Hyderus sydd wedi eu Grymuso	**25**
Mae Caerdydd yn lle gwych i gael eich magu	**32**
Helpu pobl allan o dlodi	**35**
Mae Caerdydd yn lle gwych i dyfu'n hŷn	**38**

1. CYFLWYNIAD

Mae’r adroddiad hwn wedi’i lunio gan Ganolfan Ymchwil Caerdydd ar ran Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Caerdydd.

Mae’n crynhoi canlyniadau ystod o weithgarwch ymgynghori ac ymgysylltu â dinasyddion Caerdydd yn haf/hydref 2017 ac mae’n cynnwys canfyddiadau o'r canlynol:

- Arolwg Trigolion ac Ymwelwyr Holi Caerdydd
- Ymgysylltu ar y Cynllun Lles Drafft
- Arolwg Trafnidiaeth Blynyddol Caerdydd
- Ymgynghori ar Gynlluniau Ardal Caerdydd a Bro Morgannwg

At ei gilydd, bydd y canfyddiadau hyn yn helpu'r BGC i ddeall profiad pobl Caerdydd o'r ddinas ac o'n gwasanaethau cyhoeddus yn well. Byddan nhw'n sicrhau bod Cynllun Lles y ddinas yn mynd i'r afael â phroblemau a phryderon pwysicaf trigolion mewn modd priodol.

2. METHODOLEG

Mae'r canlyniadau yn yr adroddiad hwn wedi'u casglu o ystod o weithgareddau ymgysylltu yn ail hanner 2017. Bu hyn yn cynnwys gwaith arolygu, digwyddiadau lleol a grwpiau ffocws gyda grwpiau 'heb lais' gan amlaf.

2.1 Holi Caerdydd

Arolwg dinasyddion blynyddol yw Holi Caerdydd gan Gyngor Caerdydd ar foddhad trigolion ar fywyd yng Nghaerdydd a gwasanaethau cyhoeddus.

Roedd Holi Caerdydd 2017 yn cynnwys 50 cwestiwn am fywyd yng Nghaerdydd, ansawdd gwasanaethau cyhoeddus, ac am y tro cyntaf, Lles. Mae'n arolwg ar-lein yn unig a bu ar agor rhwng 9 Awst 2017 a 25 Medi.

Ymateb

Bu 5598 o ymatebion i Holi Caerdydd 2017, sydd 1,167 yn uwch na'r nifer uchaf gynt sef 4,431 yn 2015.

Tabl 1: Ymateb i Holi Caerdydd

	Holi Caerdydd 2014	**Holi Caerdydd 2015**	**Holi Caerdydd 2016**	**Holi Caerdydd 2017**
Cyfanswm yr ymatebion	**2972**	**4431**	**4024**	**5598**

Maint y sampl

Yn sgil cynnydd sylweddol yn nifer yr ymatebion gan bobl o bob grŵp, bu modd gwneud dadansoddiad mwy cadarn o lawer o grwpiau unigol.

Mae canlyniadau wedi cael eu rhannu yn ôl ardaloedd daearyddol, sef chwe Ardal Partneriaeth Cymdogaeth y ddinas, ac yn ôl grwpiau o fewn y boblogaeth gan gynnwys 'Amddifadedd'. Mae'r grŵp hwn yn cynnwys y sawl sy'n byw yn ardaloedd 20% mwyaf difreintiedig y ddinas.

Mae'r tabl 2 isod yn dangos y cafwyd sampl digon o faint i gadw'r cyfyngau hyder, yn achos pump o'r chwe Ardal Partneriaeth Cymdogaeth, yn llai na 5% yn uwch neu'n is.

Bu'r ymateb yn Nghanol a De Caerdydd yn isel yn draddodiadol ond roedd yn sylweddol uwch yn 2016 a 2017, efallai oherwydd y cafodd ei rannu a'i hysbysebu'n fwy gan Ganolfan Ymchwil Caerdydd.

Mae'r gyfradd ymateb draddodiadol isel gan drigolion yn Nwyrain Caerdydd wedi parhau, ond mae nifer yr ymatebion yn sicr wedi codi o'i gymharu ag arolygon cynt. Mae'r Cyfwng Hyder yn parhau i fod yn uwch na 5%, felly er bod y dadansoddiad yn yr ardal hon yn parhau i fod yn berthnasol, dylid cadw'r Cyfwng Hyder mewn cof pan cnoir cil arnyn nhw.

Tabl 2. Holi Caerdydd 2017: Cyfyngau Hyder gan anelu at Lefel Hyder o 95%

Ardal	Maint y Sampl a Gafwyd	Poblogaeth 16 oed + (ACF 2015)	Maint Sampl sydd ei Angen am CH llai na 5% +/-	Cyfwng Hyder a Gafwyd +/-
Dwyrain Caerdydd	333	36,700	379	5.35
Gogledd Caerdydd	1,780	95,100	382	2.30
De-ddwyrain Caerdydd	699	68,500	382	3.69
De-orllewin Caerdydd	789	55,900	381	3.46
Gorllewin Caerdydd	1,219	61,600	381	2.78
Dinas a De Caerdydd	459	39,300	380	4.55
Cyfanswm Caerdydd	**5,598**	**357,200**	**384**	**1.30**

Pwysoli Data

Ystyr pwysoli data yw ei addasu er mwyn iddo gynrychioli'r boblogaeth y daeth y sampl o'i phlith. Yn achos y data a gasglwyd yn rhan o arolwg Holi Caerdydd 2017, pwysoliwyd y data cyffredinol yn achos rhai cwestiynau er mwyn sicrhau ei fod yn gynrychioladol o ran oedran, rhyw ac Ardal Partneriaeth Cymdogaeth.

Yn yr adroddiad, cyfeirir mewn mannau at yr ymateb 'sydd wedi'i bwysoli', hynny yw'r ymateb a addaswyd, a'r data 'a gafwyd', hynny yw'r ymatebion a gafwyd mewn gwirionedd.

Pwynt canrannol neu ddau'n unig yw'r gwahaniaeth rhwng y ffigurau hyn fel arfer. Gallai gwyro safonol achosi hynny ac ni ddylai fod yn achos pryder. **Roedd y tebygolrwydd cryf rhwng y data a gafwyd a'r data ar ôl ei bwysoli'n dangos lefel uchel o gadernid yn y ffordd y casglwyd y data.**

2.2 Grwpiau Ffocws ac Ymgysylltu Cymunedol

Er mwyn gwneud yn siŵr bod barnau'n cael eu casglu o ledled y ddinas, achubwyd ar y cyfle i ymgysylltu â thrigolion mewn cyfres o ddigwyddiadau ymgysylltu cymunedol a gynlluniwyd ledled y ddinas. Cynhaliwyd 20 digwyddiad 'lleol' ym mis Tachwedd a Rhagfyr 2017.

Cynhaliwyd gwaith grwpiau ffocws gyda'r grwpiau canlynol:

- Race Equality First, grŵp menywod Lleiafrifoedd Ethnig Du Asiaidd
- Aelodau o’r Gymuned Fyddar
- Fforwm 50+
- Grŵp Pobl Ifanc Lleiafrifoedd Ethnig Du Asiaidd Diverse Cymru
- Gweithredu Dros Iechyd Meddwl Caerdydd a'r Fro
- Digwyddiad Uwch-gyngor y Cyngor Ieuenctid
- Grŵp Ffrindiau a Chymdogion (Butetown)

Cymerodd 119 o bobl ran yn y sesiynau grŵp ffocws hyn.

2.3 Arolwg Ar-lein Cynllun Lles Caerdydd

Gofynnodd yr arolwg ar-lein am farn pobl ar flaenoriaethau a gynigir neu Amcanion Lles BGC Caerdydd ar gyfer y prif heriau mae’r ddinas yn eu hwynebu ar hyn y bryd ac y bydd yn eu hwynebu yn y dyfodol (h.y. diwallu anghenion poblogaeth sy’n tyfu’n gyflym, gan sicrhau bod seilwaith a gwasanaethau cyhoeddus y ddinas yn gallu ymdopi â’r twf hwn a lleihau anghydraddoldeb).

Cafwyd 116 o ymatebion i’r arolwg.

ADRAN 3: BYWYD YN Y DDINAS A GWASANAETHAU CYHOEDDUS

3.1 Ar y cyfan, pa mor fodlon neu anfodlon ydych chi ar fyw yng Nghaerdydd?

Roedd tua chwech o bob saith ymatebydd (84.8%) yn fodlon ar fyw yng Nghaerdydd. Dyma ostyngiad bach o 4.9% o'i gymharu â data 2016.





Mae hyn yn cydberthyn yn agos â chanlyniadau Arolwg Cenedlaethol Cymru yn 2016 a ganfu fod 88% yn fodlon ar fyw yng Nghaerdydd, 8fed uchaf yng Nghymru a'r uchaf o blith ardaloedd trefol yng Nghymru.

Roedd bodlonrwydd isaf ymhlith ymatebwyr a nododd eu bod yn anabl (75.9%) a'r sawl a oedd yn byw yn ardaloedd mwyaf difreintiedig y ddinas (79.4%).

Mewn grwpiau ffocws, canfuwyd fel arfer mai parciau a mannau gwyrdd y ddinas, ei diwylliant, hamdden a siopa, a'i maint h.y. digon mawr i gynnig holl fanteision dinas fawr heb fod rhywun yn teimlo ar goll ynddi yr oedd pobl yn hoffi fwyaf amdani. Roedd trafnidiaeth a sbwriel yn enwedig yn y gymdogaeth leol, yn themâu ddaeth lan tro ar ôl tro o ran yr hyn a berodd y mwyaf o anfodlonrwydd.

3.2 Safon Gwasanaethau Cyhoeddus

Roedd dwy draean (65.5%) yn cytuno bod ansawdd gwasanaethau cyhoeddus yng Nghaerdydd yn dda ar y cyfan. Mae hwn ychydig yn llai na 73% yn arolwg 2016.



Meintiau Sylfaen mewn cromfachau. Mae ymatebion 'Ddim yn gwybod' wedi'u heithrio.



Roedd ymatebwyr a nododd eu bod yn anabl, neu'n byw ym mannau mwyaf difreintiedig y ddinas, y lleiaf tebygol o nodi bod ansawdd gwasanaethau cyhoeddus yn dda ar y cyfan (48.2% a 50.9% yn y drefn honno).

3.3 Blaenoriaethau ar gyfer y ddinas

Gofynnodd ymgynghoriad ar Gynllun Lles Drafft Caerdydd p'un a oedd trigolion yn cytuno â'r saith amcan lles a'r camau ar gyfer gwella ansawdd bywyd a mynd i'r afael â'r prif heriau i wasanaethau cyhoeddus y ddinas.

Amcan Lles	Wyneb yn Wyneb		Ar-lein		**At ei gilydd**	
	Blaenoriaeth dinas	Blaenoriaeth bersonol	blaenoriaeth	Blaenoriaeth bersonol	**Blaenoriaeth dinas**	**Blaenoriaeth bersonol**
1. Prifddinas sy'n gweithio dros Gymru	5	6	4	7	**4**	**7**
2. Caiff twf poblogaeth Caerdydd ei reoli mewn ffordd wydn	5	7	3	5	**5**	**6**
3. Cymunedau diogel, hyderus sydd wedi'u grymuso	2	1	1	1	**2**	**1**
4. Mae Caerdydd yn lle gwych i gael eich magu	4	2	6	3	**6**	**3**
5. Helpu pobl allan o dlodi	1	4	2	5	**1**	**5**
6. Mae Caerdydd yn lle gwych i dyfu'n hŷn	7	3	7	2	**7**	**2**
7. Moderneiddio ac integreiddio ein gwasanaethau cyhoeddus	3	5	5	4	**3**	**4**

ADRAN 4: LLES

4.1 Sut rydych chi'n teimlo amdanoch eich hun?

Cafodd ymatebwyr bedwar datganiad, a gofynnwyd iddyn nhw nodi rhwng 0-10 pa mor fodlon roedden nhw ar eu bywyd, pa mor hapus a phryderus roedden nhw'n teimlo'r diwrnod cyn yr arolwg ac i ba raddau roedden nhw'n teimlo bod y pethau roedden nhw'n eu gwneud yn eu bywydau'n werth chweil.

Cyfrifwyd sgorau canolig pob cwestiwn. Lle mae sgorau fwy na 0.2 yn well na'r sgôr ganolig (uwch yn achos boddhad, hapusrwydd, teimlo'n werth chweil, is yn achos pryderon) mae celloedd yn wyrdd; mae'r sawl sy'n waeth yn goch.

Mae'r sawl sydd a sgôr o fewn 0.2+/- i'r canlyniad canolig yn oren.

Nododd ymatebwyr 55+ oed yng Ngogledd Caerdydd sgorau uwch na'r ffigur gyfartalog ym mhob un o'r mesurau. Nododd pobl dan 35 oed, pobl o leiafrif ethnig, pobl yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig, ac ymatebwyr a nododd eu bod yn anabl, sgorau is na'r ffigur gyfartalog ar gyfartaledd.

	Bodlon	Hapus	Pryderus	Gwerth chweil
Pob ymatebwr	7.1	7.0	3.6	7.0
Dan 35 oed	6.9	6.7	3.9	6.6
55+	7.4	7.4	3.4	7.3
Menyw	7.1	7.0	3.7	7.1
Gwryw	7.2	7.1	3.5	7.0
Lleiafrifoedd ethnig	6.8	6.8	4.0	6.9
Difreintiedig	6.5	6.5	3.9	6.5
Nododd anabledd	5.8	5.8	4.0	5.7
Siaradwr Cymraeg	7.3	7.3	3.9	7.3

O ran wardiau, mae'r mapiau canlynol yn dangos gwahaniaeth rhwng y gogledd a'r de.
Mae lefelau hapusrwydd, bodlonrwydd bywyd a theimlad o fod yn werth chweil yn is, ac mae lefelau pryder yn uwch yn ne'r ddinas.

Happiness: Average Score by Ward (Ask Cardiff 2017)



Anxiety: Average Score by Ward (Ask Cardiff 2017)



Life Satisfaction: Average Score by Ward (Ask Cardiff 2017)



Worthwhile Life: Average Score by Ward (Ask Cardiff 2017)



4.2 Yn ystod yr wythnos ddiwethaf, sut byddech chi'n disgrifio'ch ymdeimlad o Les?

Nododd ychydig yn llai na tri chwarter o ymatebwyr (72.9%) eu bod yn teimlo y bu eu lles yn 'dda' neu'n 'dda iawn' yn yr wythnos flaenorol.



Mae'r maint sylfaenol yn eithrio ymatebion 'Ddim yn gwybod. '

Roedd yr ymdeimlad o les isaf ymhlith ymatebwyr a nododd eu bod yn anabl (45.0%) a'r sawl a oedd yn byw yn ardaloedd mwyaf difreintiedig y ddinas (62.4%).

4.3 Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae fy ymdeimlad o les wedi:

Nododd tri o bob pum ymatebydd (60.2%) fod ei les wedi aros yn gyson dros y flwyddyn ddiwethaf; roedd bron i chwarter (23.0%) yn teimlo e fod wedi dirywio.



Mae nifer yr ymatebwyr yn eithrio ymatebion 'Ddim yn Gwybod'

Nododd bron i hanner o'r sawl sy'n nodi eu bod yn anabl (46.7%), a 30.1% o'r sawl sy'n byw yn ardaloedd mwyaf difreintiedig y ddinas fod eu lles wedi dirywio dros y 12 mis diwethaf.

4.4 I ba raddau ydych chi'n fodlon/anfodlon ar eich iechyd corfforol a meddyliol?

Roedd bron i dri chwarter o ymatebwyr yn fodlon ar eu hiechyd meddyliol ac emosiynol (72.7% a 73.4% yn y drefn honno).



Nifer yr ymatebwyr mewn cromfachau. Mae ymatebion 'Ddim yn gwybod' wedi'u heithrio.

Mae bodlonrwydd ar iechyd corfforol y rheini mewn cymunedau difreintiedig Yn 63%, a 37% yn achos y sawl a nododd eu bod yn anabl (50% yn anfodlon).

Mae patrymau tebyg yn achos iechyd meddwl. Mae 62% o'r sawl sy'n byw mewn cymunedau difreintiedig yn mynegi bodlonrwydd, a dim ond 48% o'r sawl a nododd eu bod yn anabl (o gymharu hynny â 73% ar gyfartaledd fel arall).

4.5 Mynediad at Wasanaethau Iechyd Meddwl

Mewn grŵp ffocws gyda defnyddiwr gwasanaethau iechyd meddwl presennol yn y ddinas amlygwyd pwysigrwydd 'cael rhywle i fynd' yn rhan o reoli iechyd meddwl.

Canolfan mynediad agored 4 Winds yw'r unig adnodd o'i fath yn y ddinas, ac mae defnyddwyr yn galw am adnoddau tebyg mewn rhannau eraill o'r ddinas. Caiff ei alw'n *'amhrisiadwy o ran cynnig cymorth'* yn enwedig pan fod cael diagnosis gan Feddyg Teulu *'yn gallu cymryd sawl mis'.*

Nodwyd bpd allgáu cymdeithasol yn broblem sylweddol i'r sawl sy'n brwydro'n erbyn problemau Iechyd meddwl, gan gynnwys y sylwadau isod:

"O gael eu gadael heb gymorth i ddelio â phethau, mae pobl yn yfed, yn cymryd cyffuriau, ac yn hunanfeddyginiaethu yn y pen draw. Dyma'r bobl sydd wedyn yn colli cartref, yn byw ar y strydoedd, ac efallai ei bod yn rhy hwyr dod â nhw'n ôl."

"Rwy'n pryderu y byddaf yn unig pan fyddaf yn hŷn."

"Am 25 mlynedd bues i'n byw ar fy mhen fy hun mewn fflat un ystafell. Roedd yn rhaid i mi waelu'n gorfforol cyn i mi gael cymorth gyda'm hiechyd meddwl."

Tynnodd defnyddwyr gwasanaeth sylw at fanteision grwpiau cymunedol o ran mynd i'r afael ag iechyd meddwl ac allgáu cymdeithasol:

"O gael pobl at ei gilydd, mae syniadau'n dechrau llifo, ac mae atebion yn dod."

"Rwyf wedi dechrau mynd i 'Bwyta'n Iach am Oes' – roedd yn braf cwrdd â gwahanol bobl â gwahanol broblemau."

Roedd pryderon o ran gwasanaethau iechyd meddwl a darpariaeth ddigonol yn thema dro ar ôl tro mewn sgyrsiau â phobl iau ac wrth ymgysylltu â nhw.

4.6 Mynediad at Feddygon Teulu a Gwasanaethau Iechyd

Nodwyd pryderon o ran amseroedd aros am apwyntiadau â Meddygon Teulu mewn pob Trafodaeth grŵp ffocws, a nodwyd bod rhai wedi aros am hyd at bedair wythnos. Nodwyd anawsterau hyd yn oed i unigolion oedd eisoes â chyflyrau fel diabetes.

Mewn trafodaethau, soniwyd am nifer o sgil effeithiau anawsterau gyda chael apwyntiad meddyg teulu gan gynnwys:

- Achosion o hunan feddyginiaethu anghywir neu aneffeithiol;
- Dibynadwyedd ar wasanaethau allan o oriau;
- Ymweliadau ag adrannau Damweiniau ac Achosion Brys nad ydyn nhw'n argyfwng;
- Methiant ag adnabod symptomau difrifol sy'n arwain at broblemau iechyd mwy difrifol

Ni theimlwyd bod y system ffonio bresennol yn effeithiol. Roedd galwyr wedi profi llinellau prysur, nifer annigonol o apwyntiadau, anghysondeb o ran meddygon a welwyd a rheoli gan staff derbynfeydd mewn ffordd nad yw'n rhoi tawelwch meddwl i gleifion. Awgrymodd rhai ymatebwyr, gan gynnwys pobl iau, proses trefnu apwyntiad ar-lein i leihau oedi a gwneud y broses yn haws.

Mynegodd cyfranogwyr Lleiafrifoedd Ethnig Du Asiaidd a chyfranogwyr byddar mewn grwpiau ffocws bryderon o ran argaeledd ac ansawdd gwasanaethau cyfieithu ar y pryd mewn meddygfeydd ac ysbytai.

4.7 Mynediad at weithgareddau corfforol

Soniwyd am bwysigrwydd ymarfer corff i wella iechyd corfforol a meddyliol mewn pob gweithgaredd grŵp ffocws.

Serch hynny, tynnodd menywod Lleiafrifoedd Ethnig Du Asiaidd sylw at yr angen am ragor o sesiynau ymarfer corff rhywedd penodol a nododd llawer nad oedd modd iddyn nhw, neu eu bod yn anfodlon, cymryd rhan mewn gweithgareddau i ddynion/fenywod.

Tybiwyd bod ymarfer corff syml yn helpu gydag ystod o broblemau e.e. rheoli pwysau, diabetes, iechyd meddwl, cydlyniant cymdeithasol.

"Mae popeth yn gweithio law yn llaw, os ydych chi'n ymarfer corff, rydych chi'n fwy tebygol o fwyta'n iawn, teimlo'n iach, ac edrych yn well."

Roedd pobl ifanc yn awyddus i weld rhagor o bwyslais ar ymarfer corff a chwaraeon yn yr ysgol. Nododd bechgyn Lleiafrifoedd Ethnig Du Asiaidd fod llawer o gyfleoedd i chwarae chwaraeon ond nad oes modd manteisio arnyn nhw ym mhob achos oherwydd galw ac oherwydd bod y sawl sy'n talu'n cael y lleoedd gyntaf am yr amseroedd gorau.

4.8 Bwyd a Diet

Mewn sgyrsiau gyda phobl iau yn benodol, codwyd pryderon am ddietau iachus. Tybiwyd bod bwydlenni mewn ysgolion a cholegau'n wael gan amlaf, gan gynnwys bwyd cyflym fel byrgyrs, pizza a sglodion fel arfer a diffyg digon o opsiynau iach.

"Mae bwyd ysgolion yn dda o'n nid yw'n iach – mae pob dydd yn ddydd Pizza, mae salads dan haen o mayonnaise, sy'n dileu'r daioni."

"Mae bwyd da'n gallu effeithio ar eich hwyliau a'ch iechyd."

Nodwyd hefyd bod poblogrwydd diodydd caffin mewn ysgolion a cholegau yn bryder. Nododd rhai ysgolion eu bod wedi stopio gwerthu diodydd ar y safle, ond maen nhw'n parhau i gael eu hyfed sy'n *"gwneud pobl yn orgyffrous"* ac sy'n "*effeithio ar eu hymennydd".* Roedd llawer o'r bobl ifanc yr ymgynghorwyd â hwy'n teimlo y byddai cyfyngiadau cryfach ar y mathau hyn o ddiodydd yn briodol.

Tybiai ymatebwyr y gallai lleoliad ac incwm hefyd effeithio ar y gallu i fwyta'n iach. Tybiwyd bod bwyta'n iach yn ddrutach. Mae siopau groser, cigyddion ac ati wedi diflannu mewn cymunedau lleol, felly heb y gallu i teithio i archfarchnadoedd mae'r cynnyrch sydd ar gael i'w brynu'n lleol yn gynyddol gyfyngedig. Nodwyd mai teuluoedd incwm isel, Lleiafrifoedd Ethnig Du Asiaidd, a'r henoed oedd wedi'u heffeithio fwyaf o ran ei chael yn anodd siopa'n iach yn lleol.

ADRAN 5: PRIFDDINAS SY'N GWEITHIO DROS GYMRU

5.1 Economi Caerdydd

Cytunodd bron i ddwy draean o ymatebwyr (64.2%) fod "*gan Gaerdydd economi lewyrchus a ffyniannus"* o gymharu hynny â 13.5% a anghytunodd â'r datganiad hwn.



Nifer yr ymatebwyr: 5.095. Mae ymatebion 'Ddim yn gwybod' wedi'u heithrio.

Roedd ymatebwyr a nododd eu bod yn anabl (19.3%), a oedd yn byw yn ardaloedd mwyaf difreintiedig y ddinas (17.0%), neu a oedd yn aelod o leiafrif ethnig (16.7%), fwyaf tebygol o anghytuno bod "*gan Gaerdydd economi ffyniannus a llewyrchus*".

Roedd ymatebwyr yng Ngogledd Caerdydd yn fwy tebygol o lawer i gytuno â'r datganiad hwn (88.2%) ac roedd y ffigur hon yn amrywio rhwng 57.5% yn Ne-ddwyrain Caerdydd A 66.8% yng Ngorllewin Caerdydd.

5.2 Fy sefyllfa cyflogaeth

Nododd y rhan fwyaf o ymatebwyr (82.3% nad oedd eu sefyllfa cyflogaeth wedi newid dros y flwyddyn ddiwethaf. Roedd ychydig yn fwy yn teimlo bod eu sefyllfa wedi dirywio o gymharu â'r sawl a oedd yn teimlo ei bod wedi gwella (9.3% a 8.4% yn y drefn honno).



Nifer yr ymatebwyr: 5.102. Mae ymatebion 'Ddim yn gwybod' wedi'u heithrio.

Roedd ymatebwyr dan 35 oed yn fwyaf tebygol o fod wedi gweld gwelliant yn eu sefyllfa cyflogaeth (24.1%), wedi'u dilyn gan y sawl o leiafrif ethnig (13.9%), a'r sawl yn ardaloedd mwyaf difreintiedig y ddinas (13.6%).

Roedd ymatebwyr a nododd eu bod yn anabl (17.4%) a'r sawl o leiafrif ethnig (16.6%) yn fwyaf tebygol o nodi dirywiad. Roedd trigolion Dwyrain Caerdydd, De-orllewin Caerdydd a Gorllewin Caerdydd yn fwy tebygol o nodi dirywiad yn hytrach na gwelliant yn eu sefyllfa cyflogaeth.

5.3 Rhagolygon swyddi/gyrfa yn y dyfodol yng Nghaerdydd

Disgrifiodd tua thri o bump ymatebydd (61.4%) eu hunain yn 'hyderus iawn' neu'n 'weddol hyderus' am eu rhagolygon swyddi/gyrfa yn y dyfodol yng Nghaerdydd.



Nifer yr ymatebwyr: 3646. Mae ymatebion 'Ddim yn gwybod' wedi'u heithrio.

Pobl dan 35 oed (67.8%), siaradwyr Cymraeg (65.0%), a menywod (63.5%) oedd fwyaf hyderus am ragolygon swyddi/gyrfa yn y dyfodol. O'i gymharu, roedd y sawl a nododd eu bod yn anabl (37.5%) a'r sawl o gefndir lleiafrif ethnig (51.3%) gyda'r lleiaf hyderus.

ADRAN 6: MAE CAERDYDD YN TYFU MEWN FFORDD WYDN

6.1 Ansawdd Aer

Roedd barn trigolion wedi'u rhannu ar y cyfan o ran ansawdd aer Caerdydd. Nododd 37.5% fod yr ansawdd aer yn dda o'i gymharu â 34.4% a nododd eu bod yn anghytuno.



Nifer yr ymatebwyr mewn cromfachau. Mae ymatebion 'Ddim yn Gwybod' wedi'u heithrio.

Ymatebwyr o leiafrif ethnig (44.9%) a'r sawl dan 35 oed (41.7%) a thrigolion Gogledd Caerdydd (41.7%) neu Orllewin Caerdydd (39.4%) oedd fwyaf tebygol o gytuno bod ansawdd aer Caerdydd yn dda.

Siaradwyr Cymraeg (41.5%), y sawl yn ardaloedd mwyaf difreintiedig y ddinas (37.7%), Ac ymatebwyr a nododd eu bod yn anabl (37.3%) a thrigolion ardaloedd deheuol y Ddinas oedd fwyaf tebygol o anghytuno bod ansawdd aer yn y ddinas yn dda.

Drwy waith ymgysylltu â dinasyddion Lleiafrifoedd Ethnig Du Asiaidd, datgelwyd rhai pryderon yn y grŵp o ran ansawdd aer a'r ofn bod hyn yn cael effaith anghymesur ar gymunedau, yn enwedig yn Ninas Caerdydd a De Caerdydd, lle mae cyfran uchel o drigolion o leiafrifoedd ethnig.

6.2 TRAFNIDIAETH A MYND O LE I LE

Eleni, lansiwyd arolwg ar wahân i ddeall defnydd o foddau teithio a thrafnidiaeth yng Nghaerdydd a fodlonrwydd arnyn nhw.

Cafwyd cyfanswm o 4,802 o ymatebion – 88.7% gan drigolion Caerdydd, 10.2% mewn rhannau eraill o Gymru, a'r gweddill gan bobl fu'n byw rywle arall neu na nododd lle maen nhw'n byw.

Bydd adroddiad llaw o'r arolwg hwn ar gael ar
www.caerdydd.gov.uk/dweudeichdweud

6.3 Pa mor ddifrifol yw problemau teithio trafnidiaeth yng Nghaerdydd yn eich barn chi?

Nododd bron i dri chwarter (73.8%) o ymatebwyr fod problemau teithio a thrafnidiaeth yng Nghaerdydd naill ai'n ddifrifol (49.1%) neu'n ddifrifol iawn (24.7%). O gymharu â hynny, dim ond 1.7% oedd yn teimlo nad oedd unrhyw broblemau.



Nifer yr ymatebwyr mewn cromfachau. Mae ymatebion 'Ddim yn Gwybod' wedi'u heithrio.

Nododd dwy draean o ymatebwyr mewn cyflogaeth eu bod yn teithio i'r gwaith ar eu pennau eu hunain yn eu ceir/fans o leiaf unwaith yr wythnos – o gymharu hynny ag 15.8% a deithiau â theithwyr a 9.8% a deithiai gyda rhywun arall wrth y llyw.

Pwysleisiodd ymatebwyr i'r arolwg cynllun lles bod angen edrych ar seilwaith trafnidiaeth Caerdydd yn ei gyfanrwydd (llwybrau beicio, car, bws, trên), cost trafnidiaeth gyhoeddus, gan fuddsoddi yn y rhanbarth ehangach i ehangu'r defnydd o foddau teithio cynaliadwy a lleihau tagfeydd.

6.4 Pa mor fodlon ydych chi ar y cyfleusterau canlynol yng Nghaerdydd?

Roedd tri o bob pum ymatebydd (59.4%) 'yn fodlon' ar gyfleusterau cerdded ac roedd tua hanner (54.8%) yn fodlon ar drafnidiaeth gyhoeddus yn y ddinas. Dim ond un o bob pump (22.5%) oedd yn fodlon ar gyfleusterau beicio yng Nghaerdydd.



Nifer yr ymatebwyr mewn cromfachau. Mae ymatebion 'Ddim yn Gwybod' wedi'u heithrio.

Tybiwyd bod darpariaeth feicio'n dda yng nghanol y ddinas ond yn fwyfwy 'bylchog' wrth deithio tua'r cyrion. Cwynwyd hefyd bod lonydd beicio presennol yn aml yn dod i ben yn ddirybudd sy'n gallu ei gwneud yn beryglus ailymuno â llif y traffig.

6.5 Mae gan Gaerdydd amgylchedd glân a deniadol

Cytunodd bron i hanner o'r sawl a gymerodd ran yn yr arolwg (47.6%, i lawr o 53.3% yn 2016) fod gan Gaerdydd amgylchedd glân, deniadol a chynaliadwy, ac anghytunodd 30%.



Nifer yr ymatebwyr: 5357. Mae ymatebion 'Ddim yn Gwybod' wedi'u heithrio.

Roedd ymatebwyr a nododd eu bod yn byw ym mannau mwyaf difreintiedig y ddinas, a'r sawl a nododd eu bod yn anabl, yn lleiaf tebygol o gytuno a'r datganiad hwn (38.7% a 39.6% yn y drefn honno). Yn ddaearyddol, trigolion De-ddwyrain Caerdydd oedd leiaf tebygol o gytuno.

Roedd parciau a mannau gwyrdd y ddinas gyda nodweddion mwyaf hoff y ddinas a dywedwyd mai'r *'gem yn y goron'* oedd Bute Park. Serch hynny, roedd lefelau bodlonrwydd gyda pharciau a mannau gwyrdd yn amrywio ledled y ddinas, gyda bwlch o 22% rhwng Gogledd Caerdydd a Dwyrain Caerdydd.



Roedd cyfranogwyr yn glir eu bod am i fannau gwyrdd y ddinas gael eu cadw.

"Nid ydym am weld adeiladau ar bob un o fannau gwyrdd y ddinas"

Bu rhywfaint o bryderon ynghylch y ffordd y rheolwyd mannau gwyrdd, llwybrau a pharcdiroedd yng nghyffiniau Colchester Avenue a Forest Fawr, ac adroddiadau eu bod yn annefnyddadwy oherwydd diffyg cynnal a chadw – *"mae gwahaniaeth rhwng ei reoli er budd bywyd gwyllt a gadael iddo dyfu'n wyllt a phydru,"*

Yn gyffredinol, dywedwyd bod gan Gaerdydd nifer o *'lwybrau hyfryd'* ond ni chaiff y rhain eu hyrwyddo a does dim arwyddion atyn nhw. Dywedwyd bod gwlypdiroedd Tredelerch yn enghraifft benodol o ardal y byddai'n fanteisiol i ragor o bobl gael gwybod amdani.

6.6 Glendid yn fy ardal leol

Roedd bron i ddau o bob pum ymatebydd (38.3%) yn teimlo bod glendid eu hardaloedd lleol wedi dirywio yn y 12 mis blaenorol.



Nifer yr ymatebwyr: 5,411 Mae ymatebion 'Ddim yn Gwybod' wedi'u heithrio.

Ymhlith ymatebwyr yn yr 20% o ardaloedd mwyaf difreintiedig Caerdydd, roedd y ffigur hon bron â chyrraedd hanner (47.6%). Yn yr un modd, roedd 48.7% o ymatebwyr yn Ninas Caerdydd a De Caerdydd yn credu bod glendid eu hardaloedd lleol wedi dirywio yn y 12 mis diwethaf.

Nodwyd bod gwasanaethau casglu gwastraff yn dda yn gyffredinol a bod gwasanaethau'n dod yn rheolaidd ac yn brydlon. Serch hynny, roedd ymatebwyr yn credu nad oedd rhai preswylwyr yn eu hardaloedd lleol yn gwybod sut y dylid cael gwared ar wastraff a'i rannu'n gywir, a bod hynny'n peri problemau gyda glendid yr ardal. Awgrymwyd cymorth ac addysg ychwanegol, gan gynnwys ar gyfer mewnfudwyr sydd efallai'n newydd yn y ddinas, ac oedolion sy'n agored i niwed ac sydd efallai'n dioddef problemau iechyd meddwl.

Nodwyd bod landlordiaid preifat, yn benodol yn ardaloedd Glan-yr-afon/Treganna'n cyfrannu at annibendod yn yr ardal. Roedd sylwadau'n cynnwys y canlynol:

"Pan fo'r safleoedd yn cael eu gwagio'n barod ar gyfer y tenant nesaf, maen nhw'n ddiofal iawn yn y ffordd maen nhw'n taflu pethau... mae teilchion gwydr dros y lle am wythnosau.

Nodwyd hefyd bod deiliach yn broblem o ran tagu draeniau a pheri codymau, yn enwedig yn yr henoed. Nodwyd bod Pontcannna yn benodol yn ardal broblemus.

Tybiwyd bod gatiau newydd ar lonydd cefn yn llwyddiant ysgubol. Dywedwyd bod garejys y tu ôl i Home Bargains, Treganna, gynt yn darged mynych mewn achosion o losgi bwriadol a thipio anghyfreithlon, a bod y mesurau wedi datrys hynny.

Nodwyd bod baw cŵn yn broblem mewn sawl ardal, a'i fod yn broblem ddifrifol yn Claude Road, y Rhath, yn benodol. Roedd ymatebwyr o blaid erlyn perchnogion cŵn ond cydnabuon nhw ei bod yn anodd dal y sawl sydd ar fai.

6.7 Mynediad at Fyd Natur



Nifer yr ymatebwyr mewn cromfachau. Mae ymatebion 'Ddim yn Gwybod' wedi'u heithrio.

Datgelwyd drwy ddadansoddi yn ôl grŵp demograffig a daearyddol:

- Mai ymatebwyr a nododd eu bod yn anabl, ac ymatebwyr o ardaloedd mwyaf difreintiedig Caerdydd, oedd leiaf tebygol o fod wedi ymweld â'r lleoedd a restrwyd.

- Mai trigolion Gorllewin Caerdydd, ac eithrio yn achos 'parciau lleol' oedd fwyaf tebygol o fod wedi ymweld â phob un o'r mannau awyr agored a restrwyd. I'r gwrthwyneb, ymatebwyr yn Nwyrain Caerdydd oedd leiaf tebygol o fod wedi ymweld â phob un o'r mannau awyr agored ac eithrio Coetir/Ffermdir Fforest.

- Roedd bron i 9 o bob 10 (87.0%) o'r ymatebwyr wedi ymweld â pharc neu fan lleol arall yn y pedair wythnos flaenorol o gymharu hynny â thri chwarter o drigolion yn Nwyrain Caerdydd.

6.8 Pa mor bryderus ydych chi ynghylch Newid Hinsawdd, sydd weithiau'n cael ei alw'n 'Gynhesu Byd-eang'?

Roedd mwy na thri chwarter o'r sawl a wnaeth yr arolwg (77.1%) naill ai'n 'eithaf pryderus' neu'n 'bryderus iawn' am Newid Hinsawdd.



Nifer yr ymatebwyr: 5,355 . Mae ymatebion 'Ddim yn Gwybod' wedi'u heithrio.

Mynegodd pobl dan 35 oed (82.8%) fwy o bryder oherwydd Newid Hinsawdd o'u cymharu â'r sawl oedd 55+ oed (73.2%). Nododd menywod (82.3%) eu bod yn bryderus yn fwy na dynion (71.7%), yn ogystal â'r sawl yn hanner mwy deheuol y ddinas o'u cymharu â'r sawl yn y gogledd.

ADRAN 7: CYMUNEDAU DIOGEL, HYDERUS SYDD WEDI EU GRYMUSO

7.1 Pa mor fodlon neu anfodlon ydych chi ar fyw yn eich cymuned leol?

Nododd mwy na thri chwarter (77.3%) o ymatebwyr eu bod 'yn fodlon' ar fyw yn eu cymuned leol.[1]

Ymatebwyr yng Ngogledd Caerdydd (86.5%) a Gorllewin Caerdydd (85.2%) oedd fwyaf bodlon ar eu cymuned leol o'u cymharu â thrigolion De-ddwyrain Caerdydd (60.9%), Dinas a De (63.5%) a Dwyrain Caerdydd (65.2%).

Roedd trigolion ardaloedd mwyaf difreintiedig Caerdydd yn sylweddol lai bodlon (35.3%) ar fyw yn eu cymuned leol.



Mae nifer yr ymatebwyr mewn cromfachau yn eithrio ymatebion 'Ddim yn Gwybod'

Roedd pethau nad oedd pobl yn hoffi am eu cymuned leol yn amrywio'n sylweddol ledled y ddinas. Roedd trigolion yr ardaloedd yng ngogledd y ddinas yn hoffi atyniad a thawelwch yr ardal ond cwyn fynych oedd ei fod yn ynysig a bod diffyg amwynderau yno. O gymharu â hynny, roedd trigolion Dinas a De Caerdydd yn mwynhau'r siopau, y drafnidiaeth a'r amwynderau lleol ond nid oedden nhw'n hoffi'r sbwriela a thipio anghyfreithlon.

[1] Nid oes data ar dueddiadau ar gael ar gyfer y cwestiwn hwn. Roedd arolygon blaenorol yn gofyn "Ar y cyfan, pa mor fodlon neu anfodlon ydych chi ar Gaerdydd fel lle i fyw?" yn hytrach nag "Eich cymuned leol" yn benodol. Ni welwyd gwahaniaeth sylweddol rhwng y data wedi'i bwysoli a'r data a arsylwyd.

Nododd trigolion dwyrain a de'r ddinas broblemau o ran cyffuriau a gwerthu cyffuriau. Dywedodd preswylydd yn Grangetown:

"Byddwch chi'n gweld y gwerthu'n digwydd hyd yn oed yn y bore wrth fynd â'r plant i'r ysgol. Maen nhw yno o fewn dim yn eu ceir, mae bargen yn cael ei tharo, a bant â nhw'n syth. Maen nhw'n gyfrwys."

Yn nwyrain y ddinas, gwnaethpwyd sylwadau niferus am gynnydd y nefnydd nwy chwerthin ar strydoedd y gymdogaeth. Nodwyd mai pobl ifanc oedd prif ddefnyddwyr y cyffur, a bod tuniau gwag yn cael eu gadael yn aml dros y strydoedd.

7.2 Yn ystod y 12 mis diwethaf, mae lefel fy nghyfranogiad cymunedol wedi...

Nododd tua pedwar o bob pum ymatebydd (81.4%) fod lefel eu cyfranogiad cymunedol wedi aros yn gyson yn y 12 mis diwethaf. Nododd cyfrannau cyfartal y bu cynnydd neu ostyngiad.



Nifer yr ymatebwyr: 5079. Mae ymatebion 'Ddim yn Gwybod' wedi'u heithrio.

Ymatebwyr o leiafrif ethnig oedd fwyaf tebygol o nodi newid yn lefel eu cyfranogiad – nododd un o bob chwech (16.7%) eu bod wedi gwneud mwy, a nododd un o bob saith (14.8%) eu bod wedi gwneud llai.

Nododd bron i un ran o bump o'r sawl a nododd eu bod yn anabl (18.4%) eu bod wedi gwneud llai yn y gymuned yn y deuddeg mis diwethaf.

Roedd cyfranogwyr a nododd eu bod yn defnyddio gwasanaethau iechyd meddwl yn awyddus iawn ynghylch cyfleoedd i wirfoddoli. Teimlwyd y byddai llawer o bobl yn y gymuned yn cael budd o fod yn rhan o bethau, a derbyniwyd *"bod yn rhaid i'r delwedd draddodiadol o berthynas y Cyngor â'r cyhoedd, un o 'nhw a ni', newid."*

Mynegwyd anawsterau yn y ffordd y mae salwch meddwl yn newidiol, hynny yw, efallai y byddai cyfranogwyr yn gallu gwneud rhywbeth ar un diwrnod, ac efallai na fydden nhw ar ddiwrnod arall. Gall hynny beri problemau o ran ymrwymo i broject hirdymor – efallai byddai rhagor o brojectau ymuno/ymadael yn fwy effeithiol.

Codwyd pryder hefyd am y berthynas rhwng gwirfoddoli a cheisiadau am fudd-daliadau. Does dim tâl am wirfoddoli, ac ni ddylai effeithio ar daliadau, ond mewn rhai enghreifftiau gan y grŵp, roedd gwirfoddoli wedi effeithio ar asesiadau – h.y., eu gallu i weithio. O ganlyniad i'r straen o geisio datrys problemau, roedd rhai defnyddwyr gwasanaethau yn fwy gofalus rhag gwirfoddoli yn y dyfodol.

Dywedodd cyfranogwyr fod staff asiantaethau budd-daliadau wedi'u haddysgu'n annigonol ar iechyd meddwl a gwirfoddoli.

7.3 I ba raddau rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno bod pobl yng Nghaerdydd yn ddiogel ac yn teimlo'n ddiogel?

Roedd ychydig yn fwy na hanner yr ymatebwyr, 54.2% yn cytuno bod pobl yng Nghaerdydd yn ddiogel ac yn teimlo'n ddiogel – cwymp sylweddol o gymharu hynny â 74.4% yn arolwg Holi Caerdydd 2016.



Nifer yr ymatebwyr mewn cromfachau.

Roedd ymatebwyr dan 35 oed yn fwyaf tebygol o gytuno bod 'pobl yng Nghaerdydd yn ddiogel ac yn teimlo'n ddiogel' (61.8%).

Serch hynny, bu cwymp yn y ganran o ymatebwyr a gytunodd fod 'pobl yng Nghaerdydd yn ddiogel ac yn teimlo'n ddiogel' ym mhob un o'r grwpiau demograffig cymharol, ac ym mhob un o'r chwe Ardal Partneriaeth Cymdogaeth.

Roedd trigolion Dwyrain Caerdydd (36.5%), y sawl a nododd eu bod yn anabl (38.5%), a thrigolion yr 20% mwyaf difreintiedig o ardaloedd yn y ddinas (37.7%) yn fwyaf tebygol o anghytuno â'r datganiad hwn.

Mae angen rhagor o ymchwil i ddeall yr stori y tu ôl i'r data'n llawn. Efallai bod rhai o'r ffactorau sy'n dylanwadu'n cynnwys mwy na'r risg wirioneddol o droseddu. Gallai gynnwys y canfyddiad o ofn, sydd efallai'n cael ei ddwysáu gan ddigwyddiadau mawr neu adroddiadau yn y cyfryngau ehangach.

7.4 Pa mor ddiogel neu anniogel ydych chi'n teimlo yn y sefyllfaoedd canlynol?

Nododd ymatebwyr i'r Arolwg Holi Caerdydd diwethaf eu bod yn teimlo'n llai diogel ym mhob sefyllfa a gynhwyswyd o'i gymharu â 2016.



Nifer yr ymatebwyr mewn cromfachau.

Gwelwyd y cwympau mwyaf sylweddol yn y sefyllfaoedd canlynol:

- Cerdded yng nghanol y ddinas gyda'r nos – cwymp o 11.8%
- Beicio yn ystod y dydd – Cwymp o 13.0%
- Beicio gyda'r nos – Cwymp o 10.6%

Hefyd, roedd 7.4% yn llai o ymatebwyr yn eu cymdogaethau eu hunain yn teimlo'n ddiogel gyda'r nos o'u cymharu â ffigurau 2016.

Mae dadansoddiad yn ôl ardal leol a grŵp demograffig yn dangos:

- Mae pobl yn Nwyrain Caerdydd yn teimlo'n llai diogel na thrigolion ardaloedd eraill y ddinas mewn amrywiaeth o senarios.

- Yng Ngorllewin Caerdydd, nododd 83.9% o ymatebwyr eu bod yn teimlo naill ai 'yn ddiogel iawn' neu'n 'eithaf diogel' wrth gerdded yn eu cymdogaeth leol gyda'r nos o'u cymharu â 55.6% o drigolion Dwyrain Caerdydd. Nododd un o bob deg ymatebydd (11.1%) yn unig yn Nwyrain Caerdydd y bydden nhw'n teimlo 'yn ddiogel iawn' yn y sefyllfa hwn.

- Nododd bron i hanner (45.8%) o drigolion Dwyrain Caerdydd eu bod yn teimlo'n anniogel ar y bws gyda'r nos o'u cymharu ag ychydig yn fwy na thraean o ymatebwyr o bob ardal arall (rhwng 33.7% a 35.9%), a'r sampl at ei gilydd (36.2%).

- Nododd dros hanner (52.6%) o ymatebwyr yn Nwyrain Caerdydd eu bod yn teimlo'n 'anniogel' pan fydden nhw'n cerdded yng nghanol y ddinas gyda'r nos o'u cymharu â thua thraean (34.1%) o ymatebwyr Dinas a De Caerdydd.

- Roedd mwy na hanner o ymatebwyr o bob un o'r Ardaloedd Partneriaeth Cymdogaeth yn teimlo'n anniogel pan fydden nhw'n beicio gyda'r nos (rhwng 52.4% o drigolion Dinas a De Caerdydd a 63.1% o drigolion yng Ngogledd Caerdydd).

- Roedd bron i bob ymatebydd yn teimlo'n ddiogel yn eu cartrefi yn ystod y dydd. Gyda'r nos, mae'r ffigur hon ychydig yn llai – rhwng 90.0% yn Ne-ddwyrain Caerdydd a 96.6% yng Ngorllewin Caerdydd.

- Yn y senarios a gynhwyswyd, roedd y sawl a nododd eu bod yn anabl yn tueddu i nodi eu bod yn teimlo'n llai diogel na phobl mewn grwpiau demograffig eraill, ac roedd menywod yn gyffredinol yn teimlo'n llai diogel na dynion.

Roedd traean (33.2%) o'r holl ymatebwyr yn credu bod ymddygiad gwrthgymdeithasol wedi cynyddu yn eu hardal leol yn ystod y deuddeg mis diwethaf o'u cymharu â 4.5% yn unig a gredai ei fod wedi lleihau. Ymhlith ymatebwyr yn yr 20% o ardaloedd mwyaf difreintiedig Caerdydd, roedd y ffigur hon wedi cyrraedd hanner (50.5%).

Roedd nifer o'r enghreifftiau penodol o broblemau'n cynnwys grwpiau o bobl ifanc yn cwrdd mewn cymdogaethau, yn enwedig gyda'r nos, gan beri i bobl deimlo'n anniogel.

"O fy ardal i (y Tyllgoed) mae modd gweld caeau chwarae ysgolion, ac rwy'n dwli ar hynny. Mae'n teimlo'n debyg i'r wlad, y nant a'r coed. Gyda'r nos mae'n wahanol,

mae llawer o laslanciau yn ymgynnull mewn grwpiau o tua 10-15. Maen nhw'n gwneud i'r lle deimlo'n anniogel a dychrynllyd a dyw hynny ddim yn beth da o gwbl."

"Weithiau yn yr ardal (Gabalfa) mae grwpiau o laslanciau sy'n dod i falu popeth, drysau garej, siopau a cheir. Does neb yn eu stopio, mae pobl eu hofn. Dw i ddim yn meddwl mai pobl leol ydyn nhw, maen nhw'n dod mewn grwpiau ac weithiau mae arogl cyffuriau arnyn nhw."

"Yng ngwyliau'r ysgol yn enwedig, rydym ni'n cael problemau gyda grwpiau o bobl ifanc ar y stryd, sy'n gallu bod yn fygythiol ar adegau." (Tremorfa)

7.5 Mae fy nghymdogaeth yn rhywle lle y mae pobl yn dod ymlaen ac helpu ei gilydd.

Yn 2017, cytunodd tri o bob pum ymatebwyd (59.5%) fod eu cymdogaeth yn rhywle lle y mae pobl yn dod ymlaen ac yn helpu ei gilydd. Mae hon yn ostyngiad bach o'i chymharu â ffigur 2016, sef 64.5%. Fu dim gwahaniaeth sylweddol o bwysoli'r data.



Nifer yr ymatebwyr mewn cromfachau.

Siaradwyr Cymraeg (68.4%) ac ymatebwyr 55+ oed (65.2%) oedd fwyaf tebygol o gytuno bod pobl yn eu cymdogaethau'n dod ymlaen ac yn helpu ei gilydd. Trigolion yr 20% o ardaloedd mwyaf difreintiedig y ddinas (29.9%) a'r sawl a nododd eu bod yn anabl (23.6%) oedd yn anghytuno â'r datganiad hwn fwyaf.

Yn ddaearyddol, gwelwyd bod pobl de a dwyrain y ddinas yn cytuno â'r datganiad hwn leiaf.

Mewn cyfweliadau a thrafodaethau, gwelwyd llond llaw o enghreifftiau o berthnasoedd da iawn a gwael iawn rhwng cymdogion. Serch hynny, yn fwyaf trawiadol oedd nifer y bobl a nododd nad oedd ganddyn nhw berthynas amlwg â'u cymdogion. Dywedodd cyfranogwyr niferus eu bod yn *"adnabod wyneb, ond nid enw, eu cymdogion."*

"Dyw fy nghymdogion ddim wir yn cymdeithasu, mae pawb yn byw ei fywyd ei hun".

"Dw i'n adnabod wynebau fy nghymdogion ond nid eu henwau, dim ond hi/helo fyddwn ni'n ei ddweud wrth ein gilydd".

Mewn enghreifftiau o berthnasoedd gwell rhwng cymdogion, nododd pobl eu bod yn rhannu gwaith fel torri'r glaswellt, cyfnewid bwyd (yn enwedig pan oedd cymdogion o dras gwahanol) a bod yn ystyriol o'i gilydd yn gyffredinol. Dywedwyd bod cyfathrebu ac addysg yn allweddol i berthnasoedd cymdogion da:

"O siarad a chyfathrebu ar y cychwyn, dewch chi i sylweddoli bod cymaint mewn cyffredin gennych chi. Addysg sy'n bwysig ym mhob agwedd."

Pwysleisiwyd addysg grefyddol yn yr ysgol ac yn y teulu i wella dealltwriaeth a chydlyniad cymunedol.

ADRAN 8: MAE CAERDYDD YN LLE GWYCH I GAEL EICH MAGU

Roedd cyfraddau ymateb pobl dan 18 oed yn isel iawn i'r gwaith arolygu ar-lein. Mae'r blaenoriaethau isod wedi'u casglu o'r gwaith grwpiau ffocws, gan gynnwys:

- Digwyddiad diwrnod cyfan Uwchgyngor Cyngor Ieuenctid Caerdydd i ystyried y cynllun lles
- Grŵp ffocws gyda dynion o leiafrifoedd ethnig du ac Asiaidd

8.1 Llwybrau at waith

Pan ymgysylltwyd â phobl ifanc yn y ddinas, codon nhw eu pryderon o ran gadael addysg ac ymuno â'r gweithlu. Nododd disgyblion yn eang eu bod yn teimlo nad ydyn nhw'n cael digon o gymorth i ddod o hyd i swydd ac mai canlyniadau arholiadau yw'r prif ganolbwynt yn hytrach na pharatoi ar gyfer byd gwaith.

Roedd galw eang o du pobl ifanc am ragor o gyfleoedd profiad gwaith. Dywedwyd bod cyfleoedd presennol yn wael, a bod disgyblion a rhieni yn gyfrifol am drefnu lleoliadau yn hytrach na bod hynny'n cael ei wneud drwy system ysgol swyddogol. Oherwydd hynny, mae cyfleoedd yn amrywio yn ôl sawl ffactor gan gynnwys cymorth y teulu, cysylltiadau personol ac ym mha ysgol mae'r disgybl – mae rhai cyflogwyr yn anfodlon derbyn disgyblion ar sail diffyg enw da'r ysgol.

Teimlwyd y byddai cyfleoedd gwaith go iawn cyn gadael addysg llawn amser yn paratoi pobl ifanc yn well ar gyfer byd gwaith ac y byddai'n eu galluogi i ddeall gofynion cyflogwyr yn well pan fydden nhw'n gwneud ceisiadau.

Roedd pobl ifanc yn tybio bod eu hamser yn yr ysgol ar hyn o bryd yn cael ei lywio ar sail canlyniadau academaidd yn hytrach na'u paratoi ar gyfer y camau nesaf yn eu bywydau. Cyflwynodd cyfranogwyr yn yr Uwchgyngor Ieuenctid neges glir, sef eu bod yn galw am fwy o ganolbwynt ar wersi Personol, Cymdeithasol, Iechyd ac Economaidd gan staff a hyfforddir yn benodol i'w cyflwyno. Roedd disgyblion yn awyddus i'r gwersi hyn gael eu defnyddio er mwyn eu paratoi ar gyfer bywyd h.y. arweiniad ymarferol ar bethau fel talu biliau, chwilio am waith, agor cyfrifon banc a dysgu gwerthoedd fel cydraddoldeb ac amrywiaeth.

Mynegodd cyfranogwyr Lleiafrifoedd Ethnig Du Asiaidd bryder am y bwlch rhwng cyrhaeddiad disgyblion Lleiafrifoedd Ethnig Du Asiaidd a disgyblion gwyn mewn TGAU, a holon nhw beth a oedd yn cael ei wneud er mwyn mynd i'r afael â'r gwahaniaeth. Nododd bechgyn Lleiafrifoedd Ethnig Du Asiaidd eu bod yn defnyddio'r tîm 'Cyngor i Mewn i Waith' a'u bod yn cael cymorth gyda llythyrau eglurhaol, CVs ac ati. Er gwaethaf y cymorth, nodwyd ei bod yn parhau i fod yn anodd dod o hyd i swydd rhan amser a'i bod yn bosibl y bydd rhywun yn teimlo ei fod wedi dioddef gwahaniaethu.

8.2 Iechyd Meddwl a Phobl Ifanc

Nododd pobl ifanc fod newid mewn gwasanaethau iechyd meddwl yn flaenoriaeth bennaf. Nodwyd bod iechyd meddwl gwael mewn pobl ifanc yn *"epidemig iechyd sy'n cael ei anwybyddu".* Dywedwyd ei bod yn anodd cael mynediad at wasanaethau a bod angen argyfwng cyn y caiff unigolyn ei gyfeirio. Credwyd bod amseroedd aros hir a diffyg ymyriadau cynnar a systemau cymorth yn gwaethygu problemau, gan gynnwys peri straen wrth baratoi am arholiadau, pwysau cymdeithasol gan gynnwys yr hyn a berir gan gyfryngau cymdeithasol a bywyd gartref.

Yn ogystal â darparu gwahanol lwybrau at waith (e.e. opsiynau heblaw rhai academaidd, prentisiaethau a chyfleoedd i weithio mewn sefydliadau gwirfoddol), pwysleisiwyd canolbwynt cryfach ar helpu pobl ifanc i fagu hyder. Yn benodol, byddai darpariaeth allgyrsiol a phrofiadau diwylliannol ar y penwythnos ac yn ystod gwyliau'r ysgol yn helpu i ailysgogi diddordeb plant ac i roi sgiliau rhyngbersonol iddyn nhw sydd eu hangen i arwain bywydau hapus a llwyddiannus.

8.3 Cyfleusterau / Gwasanaethau Ieuenctid yn y Gymuned

Pwysleisiwyd hefyd yr angen am ragor o gyfleusterau ieuenctid. Daeth i'r amlwg fod lefelau bodlonrwydd ar wasanaethau ieuenctid yn gymharol isel ledled y ddinas, yn enwedig yn y 20% mwyaf difreintiedig o gymunedau. Pan ymgysylltwyd yn uniongyrchol â phobl ifanc (dan 18 oed), codwyd y broblem yn aml bod diffyg lleoedd i gwrdd a chymdeithasu â ffrindiau.

8.4 Trafnidiaeth

Yn enwedig ymhlith pobl ifanc, dywedwyd bod gwasanaethau Bws Caerdydd yn *'rhy ddrud'.* Dywedwyd bod cwmnïau lleol a gystadlai ag ef yn rhatach ond eu bod nhw'n llai dibynadwy. Tybiwyd bod cost teithio o'r cymoedd a'r ardaloedd cyfagos i mewn i Gaerdydd at ddibenion diwylliannol a swyddi yn rhwystr i lawer o bobl. I helpu i fynd i'r afael â'r problemau a godwyd, awgrymodd pobl ifanc gynllun i'w gwneud yn bosibl defnyddio tocynnau gyda sawl gwasanaeth.

Mae cost teithiau bws, yn enwedig o'i chymharu â chyfleustod a chostau cymharol car, yn eu gwneud yn opsiwn anymarferol i lawer o'r bobl ifanc y siaradwyd â nhw.

"Dim ond £3 yw hi i barcio am 2 awr yn y dref".

Teimlwyd bod angen i lwybrau bws fod yn gynt ac yn fwy uniongyrchol i gyfiawnhau costau, neu fod angen lleihau costau'n sylweddol i'w gwneud yn apelgar, ac esboniodd un cyfranogwr:

"Does dim ots bod Megabus yn araf achos dim ond £1 yw e!" Ar hyn o bryd, 45 munud yw hyd taith fer o Butetown i Dreganna ac mae hynny'n ei wneud yn opsiwn anneniadol."

Roedd llawer o'r bobl ifanc y siaradwyd â nhw'n defnyddio cerdyn 'iff' sydd ar gael i'r sawl sydd rhwng 16 ac 18 oed ac sy'n lleihau'r gost deithio. Roedden nhw o blaid y cynllun ond roedden nhw hefyd yn dweud bod y broses gwneud cais yn araf a'u bod yn cael trafferth defnyddio'r system gwneud cais ar-lein. Dywedodd sawl fod eu ceisiadau wedi methu.

Nodwyd hefyd fod gwasanaethau gorlawn, yn enwedig am amseroedd brig, yn achos anfodlonrwydd sylweddol. Dywedwyd bod gwasanaethau'n 'orlawn' a bod 'dim lle', a bod gwasanaethau'n cael eu methu'n aml oherwydd diffyg lleoedd. Awgrymwyd darparu gwasanaethau ychwanegol ar lwybrau penodol e.e. llwybrau ysgol am amseroedd brig. Soniodd disgyblion ysgol Dewi Sant am eu hymgyrch lwyddiannus am fws ysgol mwy o faint, rhywbeth y mae eraill yn awyddus ei wneud, hefyd.

Nododd pobl ifanc eu bod wedi cael eu hannog gan athrawon i gerdded a beicio yn yr ysgol gynradd ond bod yr anogaeth hon wedi lleihau ers dechrau yn yr ysgol uwchradd. Roedd disgyblion yn anfodlon gwisgo helmed a dywedon nhw fod hyn yn 'geeky'. Ar ben hynny, roedd rhwystrau'n cynnwys diffyg mannau storio addas yn yr ysgol ac anfodlonrwydd defnyddio siediau beic oherwydd bod bechgyn hŷn yno'n fynych, oedd yn peri dychryn i ferched iau.

Teimlwyd yn gyffredinol y gallai ysgolion wneud mwy i annog plant i feicio. Awgrymwyd rhoi helmed am ddim yn rhan o'r wisg ysgol gan y byddai hynny'n cyfleu neges glir o blaid beicio i'r ysgol ac adref.

ADRAN 9: HELPU POBL ALLAN O DLODI

9.1 Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae fy sefyllfa ariannol wedi...

Nododd tua un o bob pedwar (26.6%) fod ei sefyllfa ariannol personol wedi gwaethygu yn y flwyddyn ddiwethaf.



Nifer yr ymatebwyr: 5396. Mae ymatebion 'Ddim yn Gwybod' wedi'u heithrio.

Un o bob tri (33.9%) oedd y ffigur honno yn achos trigolion y 20% mwyaf difreintiedig o ardaloedd Caerdydd a bron i ddau o bob pump (37.9%) oedd hi yn achos y sawl a nododd eu bod yn anabl.





Mae nifer yr ymatebwyr mewn cromfachau. Mae ymatebion 'Ddim yn Gwybod' wedi'u heithrio.

9.2 Mynediad at dai o ansawdd da

Yn gyffredinol cytunodd 63.1% o ymatebwyr fod ganddyn nhw fynediad at dai o ansawdd da.



Trigolion y 20% o ardaloedd mwyaf difreintiedig y ddinas oedd leiaf tebygol o gytuno â'r datganiad (45.1%). Yn ddaearyddol, oedd y ganran a gytunodd isaf yn nwyrain y ddinas, h.y. Trowbridge, Llanrhymni, Tredelerch (51.5%).

Tybiwyd yn gyffredinol bod mynediad at dai o ansawdd da yn un o'r meini prawf pwysicaf o les.

Roedd pob grŵp ffocws yn ymwybodol o gynnydd yn nifer y digartref ar strydoedd y ddinas. Roedd rhywfaint o rwystredigaeth bod adeiladau'r ddinas yn wag tra bod pobl yn ddigartref ac ar y strydoedd. Teimlwyd y dylid atal datblygwyr rhag gadael i hynny ddigwydd, ac awgrymwyd hefyd y gellid caffael adeiladau gwag a'u troi'n lletyau hostel i ofalu am y digartref a'u cŵn.

Awgrymodd aelodau o'r Fforwm 50+ oed y dylai datblygiadau eiddo newydd fod yn addasadwy, h.y. gan gynnwys paredau dros dro y gellid eu hychwanegu neu eu tynnu er mwyn newid pwrpas yr adeilad yn ôl yr angen e.e. teuluoedd, lletyau un ystafell.

Soniodd cyfranogwyr mewn mwy nag un grŵp ffocws am enghreifftiau o letyau mewnfudwyr newydd a oedd yn anaddas ac efallai'n anghyfreithlon mewn ardaloedd lleol. Cwestiynodd cyfranogwyr p'un a oedden nhw'n ddiogel ac yn gyfreithlon a ph'un a oedd gwasanaethau cyhoeddus yn ymwybodol o'r sefyllfa.

Yn ogystal â darparu tai fforddiadwy, tynnwyd sylw at yr angen i helpu pobl mewn perygl o dlodi i reoli eu harian a chymryd camau tuag at fod yn barod i weithio. Tybiwyd bod mentora a chyfranogiad mewn gweithgareddau diwylliannol, corfforol a chymdeithasol i helpu gyda magu hyder yn bwysig yn ogystal â chynnig cyfleoedd swydd dros dro i bobl oedd yn cael budd-daliadau er mwyn rhoi profiad gwaith iddyn nhw.

9.3 Yn ystod y 12 mis diwethaf, mae fy sefyllfa o ran tai wedi...

Dywedodd y rhan fwyaf o ymatebwyr (87.2%) fod eu sefyllfa o ran tai wedi aros yn gyson dros y 12 mis diwethaf, a dywedodd cyfrannau oedd bron â bod yn gyfartal ei fod wedi gwella (6.6%) neu ddirywio (6.2%).



Ymatebwyr dan 35 oed a thrigolion Dinas a De Caerdydd oedd fwyaf tebygol o nodi gwelliant yn eu sefyllfa o ran tai (17.7% ac 11.5% yn y drefn honno).

Mynegodd cyfranogwyr grwpiau ffocws bryderon am safonau tai'r sector preifat a nodon nhw sylwadau gan gynnwys:

"Rwyf wedi bod mewn 4 eiddo rhent mewn 3 blynedd a dydw i ddim yn teimlo bod landlordiaid preifat yn dilyn y rheolau. Dw i ddim yn meddwl eu bod hyd yn oed wedi clywed am Rentu Doeth Cymru, ac mae llawer o'r eiddo i'w rentu'n rhy ddrud ac yn wael."

"Pan fo fflatiau'n cael eu gosod uwchben eiddo masnachol, ac mae tai'n cael eu rhannu, yr argraff rwy'n ei gael yw nad oes unrhyw ganiatâd cynllunio.

"Ar ba sail y caniateir i dŷ gael ei osod? Mae llawer yn orlawn, yn damp, heb rwystrau sain na gwyntyllau, a phwy sy'n goruchwylio hynny? Mae hyn i gyd yn gwneud i mi deimlo'n anniogel iawn."

ADRAN 10: MAE CAERDYDD YN LLE GWYCH I DYFU'N HŶN

Roedd y rhan fwyaf o bobl hŷn a ymatebodd i arolwg Holi Caerdydd yn fodlon ar fyw yng Nghaerdydd (85.6%) a nododd fod eu lles wedi aros yn dda neu'n dda iawn yn y 12 mis diwethaf.

Pwysleisiwyd y materion canlynol ym mhob rhan o'r gwaith ymgysylltu:

10.1 Byw gartref, yn eu cymuned

Soniwyd am yr angen i roi gwerth ar y genhedlaeth hŷn a'u parchu drwy eu cynnwys yn nyfodol eu cymunedau, yn ogystal â'r angen am ragor o gymorth a chyfleusterau yn y cartref i alluogi pobl hŷn i fyw'n annibynnol yn eu cartref eu hunain am hirach.

"Mae rhywun yn ymadfer yn well ar ôl bod yn yr ysbyty os yw e yn ei gartref ei hun; ac mae rhagor o welyau'n cael eu cadw'n wag ac yn dod ar gael yn gynt."

Ar ddarparu'r cymorth priodol: "...10 munud y dydd, beth all rhywun ei wneud mewn cyn lleied o amser?"

Roedd cynigion penodol yn cynnwys gwella mynediad at wasanaethau cyfeillio, y celfyddydau a gweithgareddau corfforol a chymdeithasol i fynd i'r afael ag allgau cymdeithasol ac atal clefydau cronig fel dementia; ac y dylai tŷ bach lan staer a lawr staer fod yn ofynnol ym mhob tŷ newydd yn rhan gynlluniau tai i'w gwneud yn addas am oes.

10.2 Mynediad at Wasanaethau

Rhaid ymgorffori gwybodaeth am yr ystod lawn o wasanaethau i bobl hŷn yn y system gofal iechyd fel bod modd i bobl hŷn wneud penderfyniadau cytbwys.

Mae rhai o'r farn bod cyfleoedd i gael gwasanaethau a chyfleusterau gwell yn y cartref yn loteri cod post, a bod anghysondeb o ran y costau y mae disgwyl i'r henoed eu talu am wasanaethau. Disgrifiwyd llawer o bobl hŷn yn y ddinas yn 'gefnog eu hasedau ond yn ariannol dlawd' a theimlwyd y gwahaniaethir yn eu herbyn yn annheg oherwydd eu bod yn berchen ar dŷ.

"Dyw hi ddim yn deg bod yn rhaid i rai pobl dalu ac nid eraill".

"Rydych chi ar eich ennill o fod yn dlawd – os oes arian gennych chi, gewch chi'r un geiniog gan y Cyngor."

Mynegwyd rhwystredigaeth gyda'r argraff o ddiffyg cyfathrebu y mae gwasanaethau'n ei rhoi drwy ofyn am yr un manylion sydd eisoes wedi cael eu rhoi.

Mae'r angen cynyddol am ddulliau electronig o gyfathrebu â gwasanaethau hefyd yn bryder sylweddol i bobl hŷn a'u lles. Roedd rhesymau dros beidio â gallu neu fod eisiau defnyddio technoleg yn cynnwys diffyg gwybodaeth, llythrennedd TG, pryderon diogelwch a cholled cyfathrebu cymdeithasol.

"Mae cael arian neu siec yn fy llaw ac ymweld â swyddfa'r post – mae hynny'n gwneud i mi deimlo'n fwy diogel."

"Efallai mai ymweliad wythnosol â swyddfa'r post neu'r banc yw un o'r unig weithiau y bydd hen berson yn gadael y tŷ ar ei ben ei hun. Mewn gwirionedd, mae sgwrs yn y ciw'n cael effaith enfawr ar ei les."

Teimlwyd bod yn rhaid i'r ffordd y mae'r cyhoedd yn cyfathrebu â gwasanaethau fod yn fater o ddewis ac y dylid cadw dulliau o gysylltu â gwasanaethau cymunedol wyneb yn wyneb.

10.3 Mynd o Le i Le

Er bod pobl yn gyffredinol yn cefnogi gwneud canol y ddinas yn barth i gerddwyr, mae wedi ei gwneud yn anos i bobl hŷn a methedig fynd o le i le a gallai fod yn rhwystr i rai pobl. Awgrymwyd ailgyflwyno bws ymuno ymadael i deithio o amgylch canol y ddinas.

Mae pwysigrwydd amgylcheddau diogel a mynediad at wasanaethau wrth gerdded yn y gymuned leol ac yng nghanol y ddinas hefyd yn faterion allweddol i bobl hŷn, yn enwedig yn nhermau mynd i'r afael ag allgáu cymdeithasol. Ymhlith peryglon diogelwch penodol oedd gwaith cynnal a chadw annigonol o balmentydd a goleuadau stryd, draeniau wedi'u tagu a beicwyr yn gwibio. Soniwyd hefyd bod diffyg tai bach cyhoeddus yn rhwystr bosibl i bobl hŷn rhag gadael y tŷ er mwyn defnyddio gwasanaethau, cwrdd â ffrindiau neu fynd i siopa.

Roedd diogelwch gyda'r nos yng nghanol y ddinas hefyd yn bryder penodol i bobl hŷn. Teimlir nad yw Economi'r nos 'ar gyfer eu cenhedlaeth' a'i bod yn targedu pobl iau, yn enwedig ar y penwythnos. Roedd gan lawer o bobl hŷn ddigon o ofn y bydden nhw'n cwympo neu'n cael eu bwrw i lawr i beidio â mynd i ganol y ddinas gyda'r nos. Teimlwyd bod yn rhaid i bobl hŷn wneud y mwyaf o gyfleoedd canol wythnos i fwynhau canol y ddinas, h.y. y theatr, bwytai ac ati.